Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Goleg Beechwood

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/12/2016**

## Cyd-destun

Mae Coleg Beechwood yn goleg arbenigol annibynnol a chartref gofal ym Mro Morgannwg.  Perchennog y coleg yw Beechwood Court Ltd, sy’n rhan o Ludlow Street Healthcare.

Mae’r coleg yn cynnig lleoliadau dydd a lleoliadau preswyl i ddysgwyr sy’n 16 oed ac yn hŷn sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth ac a allai fod ag anghenion yn gysylltiedig â chyflwr y sbectrwm awtistig.

Mae’r pennaeth addysg yn arwain tîm o diwtoriaid a chynorthwywyr cymorth dysgu ac mae ganddo gyfrifoldeb am ddarparu a chyflwyno’r holl raglenni addysg.  Mae uwch dîm rheoli’r coleg yn cynnwys y cyfarwyddwr addysg, y pennaeth addysg, rheolwr y cartref gofal a’r arweinydd clinigol.

Mae 66 o ddysgwyr ar gofrestr y coleg ar hyn o bryd, y mae 55 ohonynt yn ddynion ifanc ac 11 ohonynt yn fenywod ifanc.  Daw dysgwyr i’r coleg o ystod eang o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr.

Dechreuodd y pennaeth addysg presennol ar ei swydd yn Rhagfyr 2013.  Cynhaliwyd arolygiad craidd diwethaf y coleg yn Ebrill 2014.  Yn Ebrill 2015, agorodd y coleg ganolfan alwedigaethol newydd ar dir y coleg.  Yn ddiweddar, mae’r coleg wedi ychwanegu ystafell ddosbarth newydd, ystafell gyffredin i ddysgwyr a chanolfan ymwelwyr at ei safle presennol.  Ers yr ymweliad monitro diwethaf ym Mai 2015, mae’r coleg wedi penodi dirprwy bennaeth addysg a dirprwy bennaeth gofal i gefnogi gwaith yr uwch dîm rheoli.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae llawer o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn ymgymryd â’u gwaith yn effeithiol.

Maent yn ymateb yn gadarnhaol i anogaeth gan diwtoriaid a chynorthwywyr cymorth dysgu, sy’n deall anghenion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr yn dda.

Mae’r coleg wedi parhau i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn dysgu sy’n gysylltiedig â gwaith trwy ystod o leoliadau profiad gwaith mewnol ac allanol perthnasol.

Mae’r coleg wedi sefydlu gweithdrefnau trylwyr ar gyfer monitro presenoldeb, ymyriadau corfforol, ffeiliau dysgwyr a chyflawni targedau dysgwyr.

Mae tîm amlddisgyblaethol y coleg yn cynnwys therapydd galwedigaethol, seicolegydd clinigol, therapydd lleferydd ac iaith a dietegydd.  Mae'r tîm yn darparu cymorth defnyddiol o ran asesu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr ac yn rhoi ystod o ymyriadau priodol ar waith i alluogi dysgwyr i elwa ar ddysgu.

Mae campws y coleg yn cynnig amgylchedd dysgu tawel a diogel, sy'n helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel yn y coleg.

**Meysydd i'w datblygu**

Nid yw targedau ar gynlluniau dysgu unigol dysgwyr yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ystod y medrau y bydd eu hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau yn y dyfodol.  O ganlyniad, ni all y coleg arfarnu p'un a yw dysgwyr yn gwneud cynnydd digonol o ran datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau mwy annibynnol.

Mae'r tîm addysg yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion yn ymwneud â staffio, materion gweithredol, a diogelwch a lles dysgwyr.  Fodd bynnag, nid yw cyfarfodydd yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddeilliannau a chynnydd dysgwyr, nac ar rannu arfer dda.

Er bod y coleg yn cynnal arsylwadau gwersi rheolaidd, nid yw'r rhain yn canolbwyntio ddigon ar safonau a chynnydd dysgwyr.  Nid yw rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'r arsylwadau hyn yn ddigon da i wella arfer ar draws y coleg.

Mae'r coleg yn cynnal archwiliadau rheolaidd o ffeiliau dysgwyr, i wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen am bob dysgwr.  Fodd bynnag, nid ydynt yn craffu ar waith dysgwyr yn ffurfiol i sicrhau bod yr addysgu yn galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd priodol.

**Argymhellion**

A1  Sicrhau bod targedau ar gynlluniau dysgu unigol yn mynd i'r afael ag ystod lawn y medrau y bydd eu hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau yn y dyfodol

A2  Defnyddio'r wybodaeth a geir o arsylwadau gwersi a chraffu ar waith i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu

A3  Sicrhau bod cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd dysgwyr

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella presenoldeb lleiafrif o ddysgwyr sy'n gyson hwyr neu'n absennol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae presenoldeb cyffredinol yn y coleg wedi cynyddu o 75% adeg yr arolygiad yn 2014 i 84.56% yn 2014-2015 ac 88.67% yn 2015-2016. Mae gan y coleg systemau cadarn ar waith ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr unigol. Mae rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i nodi dysgwyr sydd â phroblemau presenoldeb ac i gyflwyno ystod o strategaethau, er enghraifft newidiadau i raglenni unigol ac arferion boreol. Mae staff addysg a gofal yn cydweithio'n dda i roi'r strategaethau hyn ar waith, sy'n cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol rheolaidd. Mae hyn wedi arwain at bresenoldeb gwell i lawer o ddysgwyr.

**Argymhelliad 2: Cynyddu cyfleoedd i ddarlithwyr rannu arfer dda**

Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Mae'r coleg yn cynnal arsylwadau gwersi rheolaidd. Mae hyn yn helpu rheolwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn perthynas ag addysgu. Fodd bynnag, nid oes ganddo systemau ar waith i ddarlithwyr arsylwi a rhannu arfer dda mewn addysgu yn y coleg. Yn 2015, cyflwynodd rheolwyr arsylwadau cymheiriaid. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar ddarpariaeth na deilliannau.

Mae staff yn cynnal ymweliadau â darparwyr eraill, gan gynnwys ysgolion a cholegau yng Nghymru a Lloegr, fel rhan o'r broses asesu ar gyfer myfyrwyr newydd. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud y mwyaf o'r cysylltiadau hyn i nodi a rhannu arfer dda.

**Argymhelliad 3: Ehangu'r gweithdrefnau ar gyfer mesur cynnydd dysgwyr i holl feysydd y cwricwlwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae gan y coleg weithdrefnau effeithiol i olrhain y cynnydd a wna dysgwyr yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau dysgu unigol. Mae'r coleg wedi adolygu'r ffordd y mae'n gosod targedau i sicrhau bod targedau ar gyfer llythrennedd, rhifedd ac addysg bersonol a chymdeithasol yn fwy penodol ac yn dal y camau bach o gynnydd a wna dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw targedau yng nghynlluniau dysgu unigol dysgwyr yn cwmpasu holl feysydd y cwricwlwm nac yn adlewyrchu ystod lawn y medrau y bydd eu hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau yn y dyfodol.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r coleg wedi cyflwyno targedau sy'n benodol i bwnc i olrhain y cynnydd a wna dysgwyr yn y dewisiadau y maent yn eu dilyn ar eu hamserlen yn y prynhawn. Mae'r coleg yn adolygu cynnydd dysgwyr yn unol â'r

targedau hyn bob tymor.  Fodd bynnag, nid yw llawer o'r targedau hyn yn ddigon penodol ac nid ydynt yn cynnig her addas chwaith.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am y coleg

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Coleg Beechwood |
| **Rhif y coleg** | F0006003 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 10/10/2016 |
| **Perchennog** | Beechwood Court, Ludlow Street Health Care |
| **Staff** | 13 darlithydd,1 darlithydd aml-fedrau,14 cynorthwyydd cymorth dysgu amser llawn, 2 gynorthwyydd cymorth dysgu rhan-amser, 59 gweithiwr cymorth (preswyl) |
| **Nifer y dysgwyr** | 66 |
| **Darpariaeth** | Dydd, a phreswylio wythnosol (dydd Llun i ddydd Gwener), 38 wythnos yn ystod y tymor, 38 wythnos a seibiant, 52 wythnos |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer** | Myfyrwyr a allai fod ag anableddau a/neu awtistiaeth ac y gallai fod ganddynt anghenion sy'n gysylltiedig ag anhwylder y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad llawn diwethaf** | 07/04/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/05/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/08/2016 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Richard Mark Tither | Arolygydd Cofnodol |
| Caroline Rees | Arolygydd Tîm |